



**YSGOL
LLANFYLLIN**

Chwefror 3^{ydd} 2023

Annwyl Riant/Gofalwr

Etholiad Rhiant Lywodraethwyr

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu bod gennym 1 swydd wag ar gyfer cynrychiolydd rhiant lywodraethwyr ar gorff llywodraethu'r ysgol. Gwahoddir enwebiadau gan bob rhiant, neu'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant, disgyblion cofrestredig yr ysgol.

Mae'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth i'r Ysgol ddarparu pleidlais electronig a phleidlais 'drwy'r post'. Felly, dyma'r hysbysiad ffurfiol y bydd Ysgol Llanfyllin yn cynnal etholiadau ar gyfer 1 rhiant lywodraethwr pellach. Mae pob rhiant a gofalwr yn gymwys i sefyll a phleidleisio yn yr etholiad hwn, yn unol â Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005.

Mae bod yn llywodraethwr ysgol yn rôl heriol ond gwerth chweil. Bydd disgwyl i ymgeiswyr, drwy'r Ysgol, wneud cais am DBS uwch, yn syth ar ôl cael eu hethol; ymgymryd â hyfforddiant gorfodol o fewn 12 mis i'r penodiad; a mynychu tua 4 cyfarfod y tymor. Os hoffech unrhyw wybodaeth bellach neu os hoffech sefyll fel ymgeisydd e-bostiwr neu cysylltwch â'r Ysgol drwy office@llanfyllin.powys.sch.uk; Jean Brown, Ysgol Llanfyllin, Stryd Fawr, Llanfyllin SY22 5BJ; 01691 648391 (Jean Brown) neu dychwelwch y ffurflen isod.

Y DYDDIAD CAU AR GYFER YMGEISWYR YW Dydd Llun Chwefror 13^{eg} 2023. Efallai y bydd ymgeiswyr am gyflwyno datganiad ategol heb fod yn hwy na 200 gair, a fydd yn cael ei rannu â'r etholwyr.

Sylwch – gallwch gyflwyno'ch manylion drwy'r ffurflen isod NEU drwy'r ddolen ganlynol:
<https://forms.office.com/r/aUZJBr5X5B>

Dylai unrhyw riant/gofalwr sy'n dymuno pleidlais bost gysylltu â'r Ysgol yn gofyn i bapur pleidleisio gael ei anfon adref.

Pedair blynedd o'r dyddiad penodi yw tymor swydd rhiant lywodraethwr. Gall rhiant lywodraethwr wasanaethu eu tymor yn y swydd os bydd eu plentyn yn gadael yr ysgol yn ystod cyfnod ei dymor yn y swydd.

Os bydd mwy o enwebiadau nag o leoedd gweigion, cynhelir pleidlais gudd.

Yr eiddoch yn gywir

Pennaeth/Pennaeth

Cysylltwch / Contact

Llanfyllin, Powys SY22 5BJ
Ffôn / Telephone: (01691) 648391
office@llanfyllin.powys.sch.uk
www.llanfyllin.powys.sch.uk

Tim Arweinyddiaeth / Leadership Team

Pennaeth / Headteacher:
Mr Dewi Owen
Dirprwy Bennaeth / Deputy Headteacher:
Mr Llŷr Thomas

Penaethiaid Cynorthwyl/

Assistant Headteachers
Mrs Jenna Graham
Mrs Ann Roberts
Mrs Sioned Vaughan

Rheolwr Busnes/Business Manager

Mrs Sarah Hunter
CADY/ALNCO
Mrs Rhiannon Molyneux



**YSGOL
LLANFYLLIN**

Ymgeisydd	
Enw	
eost	
Rhif Ffôn	
Cyfeiriad	
Rhiant/Gofalwr	
Enw'r disgybl	
Dosbarth	
Datganiad Ymgeisydd:	
Uchafswm o 200 gair	

Cysylltwch / Contact

Llanfyllin, Powys SY22 5BJ
Ffôn / Telephone: (01691) 648391
office@llanfyllin.powys.sch.uk
www.llanfyllin.powys.sch.uk

Tim Arweinyddiaeth / Leadership Team

Pennaeth / Headteacher:
Mr Dewi Owen
Dirprwy Bennaeth / Deputy Headteacher:
Mr Llŷr Thomas

**Penaethiaid Cynorthwyol/
Assistant Headteachers**

Mrs Jenna Graham
Mrs Ann Roberts
Mrs Sioned Vaughan

Rheolwr Busnes/Business Manager

Mrs Sarah Hunter
CADY/ALNCO
Mrs Rhiannon Molyneux